

## Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

Byddem yn awyddus i glywed eich barn am y cynigion hyn, yn enwedig ynghylch:

### Pennod 1

1. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r chwe egwyddor ar gyfer diwygio etholiadol sef tegwch, hygyrchedd, cyfranogiad, gwella profiad dinasyddion, symlrwydd ac uniondeb?

### Cytuno'n llwyr

Esboniwch eich ateb:

Mae ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio yn benodol ar effaith cynigion y Papur Gwyn ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r chwe egwyddor yn addas yng nghyd-destun hwyluso ymwneud siaradwyr Cymraeg â'r broses etholiadol.

### Pennod 2

2. A ddylai Llywodraeth Cymru neilltuo adnoddau i ystyried sut y gallai pleidleisio electronig o bell weithio ar gyfer etholiadau datganoledig?

Dylai

Na ddylai

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Wrth i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gallai pleidleisio electronig o bell weithio ar gyfer etholiadau datganoledig (boed drwy neilltuo adnoddau neu beidio i hynny) rhaid sicrhau bod y drefn pleidleisio o bell ar gael yr un mor hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dylai hyn fod yn un o'r meini prawf ymarferol y byddai angen i'r system eu bodloni. Ni ddylai'r profiad o bleidleisio yn y Gymraeg fod yn ddim gwahanol i'r Saesneg a dylai egwyddor y cynnig rhagweithiol o fedru pleidleisio yn y Gymraeg fod yn ganolog i'r drefn. Hynny ydi, dylai pleidleisio yn y Gymraeg neu'r Saesneg fod yn opsiynau diofyn, ni ddylai siaradwyr Cymraeg orfod chwilio am yr opsiwn o bleidleisio yn Gymraeg.

3. Pa effeithiau, os o gwbl, rydych chi'n meddwl y byddai cyflwyno cronfa ddata Cymru o ddata cofrestru etholiadol yn eu cael ar y broses etholiadol (fel cofrestru a gwasanaethau etholiadol)?

Meddyliwch am yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl, a rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ymateb, os yw ar gael. Rhowch sylwadau ar bob nodwedd yn unigol.

Os cyflwynir cronfa ddata Cymru o ddata cofrestru etholiadol rhaid sicrhau bod y gronfa ddata yn gyfan gwbl ddwyieithog o'r cychwyn ac yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Ceir arweiniad ar greu cronfeydd data a meddalwedd ddwyieithog [yma](#). Mae'n bosibl y buasai manteision o gynnal cronfa ddata o etholwyr oherwydd buasai modd adnabod dewis iaith unigolion wrth iddynt gofrestru gan olygu bod modd sicrhau eu bod yn derbyn deunyddiau etholiadol ayb yn eu dewis iaith, yn y Gymraeg, y Saesneg neu yn ddwyieithog.

4. Beth yw eich barn am ddefnyddio darpariaethau Deddf Etholiadau 2022 deddfwriaeth bresennol o ran (a) argraffnodau digidol ar gyfer deunydd ymgyrchu digidol, a (b) enwebiadau ar-lein?

Dim sylw.

5. A ddylai prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned ddychwelyd i gyfnodau o bedair blynedd?

Dylent

Na ddylent

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

Pennod 3

6. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid ailddatgan yr etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig mewn un Ddeddf ddwyieithog i Gymru?

Cytuno'n Gryf

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn croesawu pob cam i sicrhau bod cyfraith ddwyieithog ar gael yng Nghymru.

7. O'ch safbwynt chi, a ddylai'r etholfraint adlewyrchu'r newidiadau yn statws dinasyddion yr UE gan fod y DU wedi gadael yr UE erbyn hyn?

Dim sylw.

8. Sut gallwn ni helpu pobl i ddeall eu bod wedi cael eu cofrestru'n awtomatig a theimlo'n hyderus bod eu data'n cael ei ddiogelu, yn enwedig ar gyfer pobl a allai fod yn agored i niwed neu sy'n dymuno cofrestru'n ddienw?

Dim sylw.

9. I ba raddau rydych chi'n cytuno â dileu'r gofrestr agored mewn perthynas ag etholiadau datganoledig?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda.

Dim sylw.

10. A ddylai Llywodraeth Cymru roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gael cytundebau rhannu data o fewn yr awdurdod ei hun a, lle bo'n berthnasol, gydag awdurdodau neu sefydliadau eraill?

Dylai

Na ddylai

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

11. A oes unrhyw agweddau penodol ar gofrestru awtomatig y dylid eu treialu cyn symud tuag at gyflwyno system ledled Cymru?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

12. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai myfyrwyr gael dewis cofrestru i bleidleisio wrth gofrestru yn y brifysgol?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

Os ydych chi wedi ateb Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno:

12a. A ddylid rhannu unrhyw ddata a ddarperir wedyn, drwy gytundeb rhannu data, gyda Thîm Gwasanaethau Etholiadol yr Awdurdod Lleol perthnasol?

Dylid

Na ddylid

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

Pennod 4

13. Ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol statudol i Gymru?

Cytuno

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

14. Os ydych chi wedi rhoi Cytuno'n Gryf neu Cytuno i Gwestiwn 13, beth ddylai swyddogaethau'r Bwrdd fod?

Buasai modd i Fwrdd Rheoli Etholiadol ddarparu canllawiau ac arfer da a gwneud ymchwil ar gynnal etholiadau yn ddwyieithog er mwyn cyfrannu at sicrhau cyfartaledd i'r Gymraeg a'r Saesneg yn y modd y gweinyddir etholiadau.

15. A ddylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gael pwerau i roi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol?

Os rhoddir y pŵer i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol roi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol credwn y buasai'n fuddiol iawn petai'n darparu cyfarwyddiadau ar gynnal etholiadau yn ddwyieithog a sicrhau cyfartaledd i'r Gymraeg a'r Saesneg yn y modd y gweinyddir etholiadau. Fe'ch cyfeiriwn at ein hymateb i gwestiynau 42-44 ynghylch y math o gyfarwyddyd y byddai modd ei ddarparu mewn perthynas â chynnal etholiadau yn y Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth weinyddu etholiadau.

16. A ddylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gael y pŵer i roi cyngor i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ynghylch cyflawni eu swyddogaethau?

Dylai

Na ddylai

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Os rhoddir y pŵer i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol roi cyngor i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol credwn y buasai'n fuddiol iawn petai'n darparu cyngor ar gynnal etholiadau yn ddwyieithog a sicrhau cyfartaledd i'r Gymraeg a'r Saesneg yn y modd y gweinyddir etholiadau. Gweler ein hymateb i gwestiwn 42-44 yn hyn o beth.

17. Beth yw eich barn am bwy ddylai fod yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a sut y dylid eu penodi?

Dim sylw.

18. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i roi mwy o sicrwydd etholiadol drwy ymestyn yr amser statudol pan na fydd modd cyhoeddi unrhyw adroddiadau adolygiad etholiadol terfynol ac na fydd modd gwneud unrhyw orchmynion adolygiad etholiadol?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

19a. Ar ba bwynt yn y cylch etholiadol y dylid atal y Comisiwn rhag cyhoeddi adroddiadau adolygiadau etholiadol?

O fewn deuddeg mis i etholiad cyffredin

O fewn pymtheg mis i etholiad cyffredin

Arall - rhowch fanylion

Dim sylw.

19b. Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn, cyn belled ag y bo'n bosibl, orfod trefnu adolygiadau etholiadol o fewn dwy flynedd i gwblhau adolygiad cymunedol?

Dim sylw.

20. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion a awgrymir ar gyfer pennu'r cyfnodau mwyaf ar gyfer adolygu a phenderfynu?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Dim sylw.

21. Beth yw eich barn ynghylch a ddylid cynnwys pŵer mewn deddfwriaeth i ohirio cynnal adolygiadau etholiadol?

Dim sylw.

22. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddor o gael rhestr gyffredin estynedig o ymgylgoreion gorfodol ar gyfer pob rhan o'r broses adolygu etholiadol?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Nid ydym yn anghytuno â'r egwyddor o gael rhestr gyffredin estynedig o ymgynghoreion gorfodol ar gyfer pob rhan o'r broses adolygu etholiadol. Nodwn bod bwriad i gynnwys Comisiynydd y Gymraeg fel ymgynghorai wrth baratoi'r rhaglen i gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol. Nid ydym yn anghytuno mewn egwyddor â hyn ac rydym yn y gorffennol wedi bod yn falch o weithio â'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, yn benodol mewn cyswllt ag enwau wardiau fel y nodwn isod yn ein hateb i gwestiwn 23. Nid yw'n glir ai gosod gofyniad ar y Comisiwn i ymgynghori â'r Comisiynydd sydd mewn golwg ynteu ddyletswydd ar y Comisiynydd i ymateb, ynteu'r ddau. Fodd bynnag, hoffem nodi bod adnoddau'r Comisiynydd yn gyfyngedig a bod angen cydnabod hynny os bwriedir gosod rhagor o gyfrifoldebau ar y Comisiynydd mewn deddfwriaeth.

23. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cryfhau'r gofynion i ymgysylltu â phleidleiswyr cymwys fel rhan o'r broses adolygu etholiadol, gan gynnwys mewn perthynas ag enwau wardiau?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Mae'r papur ymgynghori yn tynnu sylw at y diddordeb brwd sydd gan y cyhoedd yn enwau'r wardiau etholiadol ac yn cydnabod, ar sail hyn, y dylid rhoi lle mwy canolog i enwi yn y broses adolygu. Mae'n argymhell y dylai methodoleg y Comisiwn wrth bennu enwau wardiau gael ei nodi'n glir ac y dylai fod yn destun ymgynghoriad. Noda fwriad y Llywodraeth i'w gwneud hi'n ofyniad i'r Comisiwn ddangos yn ei adroddiadau ei fod wedi ystyried enw Cymraeg a Saesneg pob ward. Nodir y bydd gofyn i'r Comisiwn gyhoeddi enwau wardiau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'u hadroddiadau er mwyn

galluogi etholwyr a rhanddeiliaid eraill i adnabod yn haws yr enwau wardiau a argymhellir yn y ddwy iaith.

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r bwriad i roi lle mwy canolog i enwi yn y broses adolygu. Nid mater eilaidd nac eilradd yw pennu enw ward, fel y mae diddordeb y cyhoedd yn tystio. Mae enwau yn labeli hanfodol er mwyn i'r cyhoedd adnabod wardiau ac maent yn gallu dylanwadu ar y modd y bydd y cyhoedd yn ymdeimlo ac ymwneud â'r ward etholiadol yn y pen draw.

Mae'n hanfodol felly fod gan y Comisiwn fethodoleg gadarn a thryloyw wrth bennu enwau wardiau ac nad yw penderfyniadau am ffurfiau swyddogol enwau wardiau yn cael eu gwneud ar fympwy unigolion.

Dylid pwysleisio fod gan y Comisiynydd gryn arbenigedd yn y maes hwn. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor am ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru. Mae ganddo banel o arbenigwyr, [Y Panel Safoni Enwau Lleoedd](#), i'w gynorthwyo yn y gwaith hwn a sicrhau bod seiliau cadarn i bob argymhelliad a wneir yn enw'r Comisiynydd. Wrth lunio'i argymhellion bydd y Panel yn rhoi sylw i ystyr, tarddiad a defnydd lleol a hanesyddol o'r enwau ac yn dilyn [Canllawiau Safoni Enwau Cymru](#). Mae'r Canllawiau cenedlaethol hyn yn fodd o sicrhau bod methodoleg ac egwyddorion cyson yn cael eu defnyddio i safoni enwau pob rhan o Gymru. Mae'r argymhellion yn cael eu rhannu'n gyhoeddus wedyn yn [Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#) ar-lein.

Gan fod y mwyafrif helaeth o enwau wardiau Cymru yn cyfateb i enwau'r aneddiadau perthnasol, mae'n gwneud synnwyr perffaith fod y Comisiynydd yn darparu cyngor arbenigol i'r Comisiwn Ffiniau a Llywodraeth Cymru ar enwau'r wardiau. Yn wir, dyna y mae wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf wrth i'r Comisiwn Ffiniau adolygu ffiniau wardiau etholiadol Cymru cyn cyflwyno ei argymhellion terfynol am y wardiau – a'u henwau – i Weinidogion Cymru.

Bu'r Comisiwn Ffiniau yn ymgynghori â ni ar enwau'r wardiau arfaethedig a darparwyd argymhellion a nodiadau esboniadol manwl i'w cynorthwyo â'r gwaith. Ond er bod y Comisiwn Ffiniau wedi ymrwymo ar ddechrau'r broses i ymgynghori â ni a chynrychioli ein hargymhellion a'n barn yn ei adroddiadau, nid oedd ymrwymiad i ddefnyddio'r ffurfiau rydym ni'n eu hargymhell, hyd yn oed pan rydym ni wedi cytuno ar ffurfiau safonol yr enwau hynny ag awdurdodau lleol. Cafwyd achosion ble roedd y Comisiwn wedi derbyn ein hargymhellion o ran y ffurfiau Cymraeg i'w defnyddio, ond wedi mynd yn groes i'n hargymhellion yn y ffurfiau 'Saesneg' maent yn eu cynnig (er mai enwau Cymraeg yw'r rhain yn eu hanfod). Ceir enghreifftiau eraill lle gwrthodwyd ein hargymhelliad yn gyfan gwbl.

Cafwyd enghreifftiau hefyd lle nad oedd hi'n amlwg yn yr adroddiadau beth oedd argymhellion y Comisiynydd am ba ffurfiau i'w defnyddio mewn testunau Cymraeg a thestunau Saesneg â'r broses gyfieithu yn cymylu'r sefyllfa ymhellach. Mae'r Comisiynydd yn croesawu felly ddymuniad y Llywodraeth fod y Comisiwn yn amlygu'r ffurfiau Cymraeg a Saesneg a argymhellir yn yr adroddiadau Cymraeg a Saesneg er mwyn sicrhau nad oes amwyster. Byddai gwneud hyn hefyd yn amlygu'r angen i ystyried safoni enwau ymhellach a



gwaredu ffurfiau deuol pan mai dim ond llythyren (neu gysylltnod neu acen) sy'n wahanol rhwng y ffurfiau 'Cymraeg' a'r ffurfiau 'Saesneg'.

Ond *argymhellion* ynghylch enwau wardiau fydd yn cael eu cyflwyno yn adroddiadau'r Comisiwn a thybir y bydd disgwyl i Lywodraeth Gymru bennu'r ffurfiau swyddogol terfynol mewn rheoliadau. Mae swyddfa'r Comisiynydd wedi cael profiad diweddar o gynghori Gwasanaeth Cyfieithu'r Llywodraeth am ffurfiau enwau wardiau, yn enwedig mewn achosion lle nad oedd barn neu argymhelliad y Comisiynydd wedi'i gyfleu'n eglur neu'n ddibynadwy yn adroddiadau'r Comisiwn. Mae Terminolegydd Gwasanaeth Cyfieithu'r Llywodraeth yn aelod gwerthfawr o Banel Safoni Enwau Lleodedd y Comisiynydd a gwerthfawrogwyd y ddeialog adeiladol ag ef am enwau problemus a'i gyfraniad cyson at waith y Panel.

Ond er gwaethaf y cydweithio a'r cynghori hwn, wrth graffu ar yr enwau wardiau a gyhoeddwyd mewn rheoliadau gan y Llywodraeth gwelwyd bod y Llywodraeth wedi penderfynu dilyn ei thrywydd ei hun mewn perthynas â rhai enwau. Arweinia hyn at amlhau ffurfiau'n ddiangen. Mae hynny'n arbennig o rwystredig i ni pan rydym ni eisoes wedi cytuno ar ffurfiau safonol gydag awdurdodau lleol. Mae Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf yn enghraifft o awdurdod lleol yr ydym wedi cydweithio'n agos ag ef i gytuno ar ffurfiau safonol enwau lleodedd yr ardal. Cytunwyd, er enghraifft, i ysgrifennu Llwynypia yn un gair heb gysylltnodau mewn cyd-destunau Cymraeg a Saesneg er mwyn cael un ffurf safonol. Dyna argymhelliad y Comisiwn Ffiniau i'r Llywodraeth hefyd, ond sylwyd bod y Llywodraeth wedi penderfynu cyflwyno cysylltnodau yn ffurf Saesneg enw'r ward fel bo Llwynypia yn ffurf Gymraeg a Llwyn-y-pia yn ffurf Saesneg. Wrth i'r Llywodraeth fynd yn groes i'n cyngor arbenigol ni, mae perygl bod enwau'r wardiau yn cael eu sillafu'n wahanol i enwau'r aneddiadau a'u bod yn groes hefyd i'r ffurfiau y defnyddia'r awdurdodau lleol. Mae perygl hefyd o danseilio'r prosiectau safoni enwau lleodedd a chreu dryswch.

Ym mis Rhagfyr 2021, wrth ddod i gasgliadau am y rhaglen adolygu ffiniau etholiadol, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol fod enwau'r wardiau wedi arwain at 'anawsterau ac oedi' ar ddiwedd y broses a bod 'tensiwn yn aml rhwng yr enw y mae unigolion yn uniaethu ag ef a'r cynigion a gyflwynir, naill ai gan y Comisiwn neu Gomisiynydd y Gymraeg'. Mae'r Comisiynydd yn cytuno â'r dyfarniad hwn. Mae'n anorfod y bydd tensiynau yn codi mewn rhai achosion pa bynnag ffurfiau a ddewisir, gan y bydd gan unigolion farn wahanol am ffurfiau gwahanol. Ni fydd pawb yn fodlon â'r ffurfiau swyddogol a arddelir ond mae rôl bwysig gan sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru i'w chwarae i hyrwyddo, normaleiddio a chysoni'r defnydd o ffurfiau safonol enwau lleodedd.

Yn y Cytundeb Cydweithio mae'r Llywodraeth bresennol a Phlaid Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd enwau lleodedd Cymraeg i'r genedl ac wedi ymrwmo i 'sicrhau bod enwau lleodedd Cymraeg yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo.' Byddai ymrwmo i ddilyn argymhellion safonol Comisiynydd y Gymraeg yn gam ymarferol tuag at y nod hwn. Byddai'n gam pragmataidd hefyd i hwyluso'r broses enwi dan sylw, gan ddarparu mecanwaith allanol i dorri dadl a dileu anawsterau ac oedi posibl ar ddiwedd y broses. Byddai modd cyhoeddi'r enwau hyn hefyd yn Rhestr o Enwau Safonol Cymru ar-lein

er mwyn i'r cyhoedd a chyfieithwyr wybod ble i droi am atebion awdurdodol am ffurfiau safonol a swyddogol enwau lleoedd Cymru.

Dylid pwysleisio nad oes grym statudol i argymhellion y Comisiynydd yn y maes enwau lleoedd ar hyn o bryd. Argymhellion yn unig ydyn nhw ac mae rhyddid gan sefydliadau – gan gynnwys y Comisiwn Ffiniau a Llywodraeth Cymru – i benderfynu pa ffurfiau maen nhw'n eu dewis. Mae'r rhyddid hwn yn arwain at amlhau ffurfiau a dryswch a lle mae swyddogion unigol yn dwyn cyfrifoldeb annheg am wneud penderfyniadau digon heriol a gwleidyddol am ba ffurfiau y dylid eu harddel. Byddai modd goresgyn hyn drwy ddirprwyo'r gwaith anodd hwn i Gomisiynydd y Gymraeg a'i Banel Safoni Enwau Lleoedd sydd eisoes â chryn arbenigedd yn y maes ac yn gallu darparu cyngor arbenigol ac annibynnol. Mae cyfle gan y Llywodraeth i weithredu'n gadarn o blaid y Gymraeg ac enwau lleoedd Cymru, i ddyrchafu statws argymhellion y Comisiynydd, ac ymrwymo i roi enw Cymraeg safonol ar bob ward etholiadol yng Nghymru. Buasem yn croesawu trafod y materion hyn â chi ymhellach.

24. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion i ddiwygio ac ymestyn yr ystyriaethau y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu cymryd wrth benderfynu ar drefniadau etholiadol sy'n sicrhau llywodraeth leol effeithiol a hwylus, gymaint ag y bo modd?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Dim sylw.

25. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal ymgynghoriad pellach pan nad yw argymhelliad yn ei adroddiad adolygu terfynol arfaethedig yn un o'r opsiynau yr ymgynghorodd arno yn ei adroddiad drafft?

Gweler ein sylw ar enwau yn ein hymateb i gwestiwn 23.

26. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i alluogi Gweinidogion Cymru i fynnu bod y Comisiwn yn ailedrych ar ran o adolygiad etholiadol cyn gwneud gorchymyn adolygiad etholiadol?

Gweler ein sylw ar enwau yn ein hymateb i gwestiwn 23

27. A ddylid ystyried unrhyw newidiadau eraill i'r broses adolygiad etholiadol?

Dim sylw.

28. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid egluro'r cyfnod sylwadau o chwe wythnos yn y ddeddfwriaeth?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Dim sylw.

29. Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod hwn cyn cymryd unrhyw gamau i gyfarwyddo'r Comisiwn i wneud gwaith pellach neu weithredu, addasu neu beidio â gweithredu'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad argymhellion terfynol?

Dim sylw.

30. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid diddymu'r gofynion cyfreithiol ar y Comisiwn i ddarparu copïau caled o ddogfennau, ac eithrio pan wneir cais amdanynt?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Dim sylw.

31. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion ar gyfer newid deddfwriaethol mewn perthynas ag adolygiadau cymunedol?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Gweler ein hymateb i gwestiwn 23 mewn perthynas ag enwau wardiau.

32. Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar sut y gellid gwella'r broses o gynnal adolygiadau cymunedol yn eich barn chi.

Gweler ein hymateb i gwestiwn 23 mewn perthynas ag enwau wardiau.

33. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid diwygio trefniadau adolygu ffiniau atfor i gynnwys y gallu i'r Comisiwn gynnal adolygiadau sy'n ymwneud â mwy nag un ardal llywodraeth leol ac ehangu a chwtogi ffiniau atfor mewn un broses adolygu? A ddylid cynnwys y trefniadau hynny yn yr un gorchymyn adolygu?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Dim sylw.

34. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i drosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Comisiwn?

Dim sylw.

35. Ydych chi'n cytuno y dylid diddymu swyddogaethau sy'n ymwneud â phenderfynu ar gyflogau prif weithredwyr, ac nid eu trosglwyddo?

Dim sylw.

36. Beth yw eich barn am y syniad y dylid creu pwerau newydd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch taliadau parasiwt i gynghorwyr?

Dim sylw.

37. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i Gymru gynnal un fframwaith rheoleiddio ar gyfer cyllid gwleidyddol ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau datganoledig yng Nghymru?

Dim sylw.

38. Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar y mesurau penodol sy'n cael eu hystyried ynghylch cyllid gwleidyddol.

Dim sylw.

39. Pa fathau o ddatblygiadau mewn gweinyddu etholiadol fyddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu treialu yn y dyfodol?

Dim sylw.

40. Sut gallem helpu i gael cymysgedd mwy amrywiol o awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn cynlluniau peilot yn y dyfodol?

Dim sylw.

41. Beth yw eich barn am bŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru a fyddai'n eu galluogi i orfodi awdurdod lleol i dreialu datblygiadau etholiadol arloesol?

Dim sylw.

42. A ddylai Swyddogion Canlyniadau orfod dilyn gofynion penodol o ran y Gymraeg pan gynhelir etholiadau?

Dylent.

Esboniwch eich ateb:

Dylid manteisio ar y cyfle hwn i sicrhau drwy ddeddfwriaeth etholiadol nad yw Swyddogion Etholiadol yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau etholiadol.

Dros y blynyddoedd mae aelodau'r cyhoedd wedi cysylltu â'r Comisiynydd i gwyno fod Swyddogion Etholiadol yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Er enghraifft drwy anfon gohebiaeth uniaith Saesneg gan y swyddog canlyniadau, a methu â chyhoeddi canlyniadau yn Gymraeg. Yn 2015 cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad *Etholiad Cyffredinol 2015: Ffurflenni Pleidleisio, Gwybodaeth Gysylltiedig a Chyhoeddi'r Canlyniadau yn Gymraeg* ac yna yn 2017 cyhoeddodd adroddiad pellach ar *Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd 2016 yn 2017* (gweler yr atodiad). Rydym yn eich annog i ystyried canlyniadau ac argymhellion yr adroddiadau hynny yng nghyd-destun cwestiynau 42, 43 a 44 (yn anffodus nid oes gennym bellach gopi o'r cyntaf oherwydd cafodd ei golli mewn ymosodiad seibr yn 2020, fodd bynnag rydym yn hyderus ein bod wedi ei rannu â chi wrth ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar *Ddiwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2017*). Dylid nodi y credwn fod gweithredu rhai o argymhellion yr adroddiadau hyn wedi gwella'r sefyllfa rhywfaint fel y tystia'r ail adroddiad, ac nad ydym wedi derbyn llawer o gwynion perthnasol yn dilyn etholiadau mwy diweddar. Fodd bynnag, rydym yn parhau o'r farn bod angen ffurfiol'r cyfrifoldebau sydd ar swyddogion canlyniadau o ran y Gymraeg. Yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar *Ddiwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2017* (ceir copi o'n hymateb ynghlwm) holwyd a ddylai rôl y prif weithredwr statudol gynnwys rôl swyddog canlyniadau. Ymatebom yn nodi bod awdurdodau lleol yn

gyfrifol am weithredu safonau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a phe bai cyfrifoldeb y swyddog canlyniadau yn cael ei drosglwyddo i fod yn rhan o waith prif weithredwr statudol ein barn yw y byddai'r gweithgareddau etholiadol hyn yn dod o dan gwmpas y safonau perthnasol. Nodom y buasem felly yn croesawu'r bwriad i rôl y prif weithredwr statudol gynnwys rôl swyddog canlyniadau Rydym yn parhau o'r farn honno, ac fe nodom hynny yn ein [hymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Fil Senedd ac Etholiadau \(Cymru\)](#) yn 2019 yn ogystal.

43. A oes unrhyw fathau o wasanaethau yr hoffech chi weld Swyddogion Canlyniadau yn eu darparu yn y Gymraeg?

Ni ddylid gwahaniaethau rhwng y gwasanaethau y mae Swyddogion Canlyniadau yn eu darparu i'r cyhoedd yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Mewn geiriau eraill dylai'r gwasanaethau a ddarperir yn Saesneg gael eu darparu yn yr un modd yn Gymraeg a ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth wneud hynny.

44. Ydych chi erioed wedi cael unrhyw broblem sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ystod etholiadau?

Rydym yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel sefydliad sydd â'r nod statudol o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, yn hytrach nag fel unigolyn. Rydym yn ymwybodol o broblemau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ystod etholiadau gan gynnwys mewn perthynas â swyddogaethau Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau. Mae ein hadroddiadau *Etholiad Cyffredinol 2015: Ffurflenni Pleidleisio, Gwybodaeth Gysylltiedig a Chyhoeddi'r Canlyniadau yn Gymraeg* ac *Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisïynwyr Heddlu a Throsedd 2016 yn 2017* yn amlgu'r problemau hynny. Gofynnwn ichi ystyried canfyddiadau'r adroddiadau hynny. Gweler ein hymateb i gwestiwn 42 uchod mewn perthynas â hyn.

Pennod 5

45. A ddylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu ar gyfer llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr ar-lein? Pa wybodaeth y dylid ei darparu ar y llwyfan a phwy ddylai ei gynnal?

Dylai

Na ddylai

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Os bydd llwyfan ar-lein yn cael ei ddatblygu rhaid sicrhau y bydd yr un mor hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg ac na fydd yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu'r gwasanaeth i'r cyhoedd yn unol â [hysbysiad cydymffurfio â safonau'r Gymraeg Gweinidogion Cymru](#).

46. Pwy fyddai angen darparu gwybodaeth i lwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr ar-lein, a sut byddai modd eu cefnogi i wneud hynny?

Dim sylw.

47. Beth ddylid ei wneud i annog pleidiau gwleidyddol i gynhyrchu deunyddiau hygyrch?

Dim sylw.

48. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r swyddog canlyniadau mewn etholiad datganoledig fod â dyletswydd i ddarparu unrhyw offer sy'n rhesymol fel ei bod yn haws i bobl anabl bleidleisio?

Mae'n ymddangos yn rhesymol ac yn hanfodol eu bod yn darparu offer sy'n ei gwneud yn haws i bobl anabl bleidleisio.

49. Pa gefnogaeth y dylid ei chynnig i sicrhau bod y swyddog canlyniadau'n gallu cyflawni'r rôl honno'n effeithiol?

Dim sylw.

50. Ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru bennu mewn rheoliadau y math o gymorth y mae'n rhaid ei gynnig i bleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio?

Dylai

Na ddylai

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

51. Yn eich barn chi, pa fath o gymorth ddylai gael ei gynnig i bleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio?

Dim sylw.

52. Yn ogystal â darpariaethau yn y Cwricwlwm i Gymru, a oes unrhyw fesurau eraill y dylai Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith drwy'r system addysg i sicrhau y gall dysgwyr yng Nghymru gymryd rhan yn hyderus yn etholiadau Cymru?

Dim sylw.

53. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid defnyddio'r diffiniad o drosedd etholiadol Dylanwad Gormodol a ddarperir gan adran 114A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ar gyfer etholiadau datganoledig?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Dim sylw.

54. Ydych chi'n meddwl y bydd rhai neu bob un o'r camau gweithredu hyn a gynigir ac a ddisgrifir yn y Papur Gwyn yn helpu i gyfrannu at leihau achosion o gam-drin ymgeiswyr?

Byddant

Na fyddant

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:



Dim sylw.

55. Os ceisir cael eithriad o derfynau gwario ymgeiswyr ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â diogelwch, pa weithgareddau y dylid eu cynnwys yn yr eithriad hwnnw?

Dim sylw.

56. A fydd yr ychwanegiad a gynigir i'r geiriad safonol ar y ffurflen Datganiad am y Sawl a Enwebwyd yn cael yr effaith a ddymunir sef i leihau achosion o gam-drin, neu a fyddai mesurau gwahanol yn fwy effeithiol?

Bydd

Na fydd

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

57. Pa gamau eraill fyddai'n cyfrannu at leihau achosion o gam-drin ymgeiswyr?

Dim sylw.

58. A ddylai Gweinidogion Cymru ddeddfu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu a chynnal 'Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig'?

Dylent

Na ddylent

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

59. A ddylai'r Gronfa hon fod ar gael i gefnogi ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar gyfer pob is-etholiad ac etholiad cyffredin datganoledig yng Nghymru?

Dim sylw.

60. Os ydych chi'n cytuno y dylai'r Gronfa fod yn ofyniad a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, beth ddylai'r paramedrau fod ar gyfer gweithredu'r Gronfa?

Dim sylw.

61. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid diddymu'r gofyniad i osod cwestiynau Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol mewn rheoliadau?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Dim sylw.

61a. Os ydych chi'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno, a ddylai'r arolwg gael ei ddiweddarau drwy broses adolygu ffurfiol sy'n cynnwys partneriaid allweddol?

Dim sylw.

62. Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol gael hyblygrwydd i ofyn cwestiynau am fesurau lleol i ehangu cyfranogiad?

Dim sylw.

63. Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys cwestiynau yn yr arolwg am brofiadau ymgeiswyr o gam-drin ac aflonyddu (gweler yr adran ar "mesurau eraill rydym yn eu cymryd i sicrhau diogelwch ymgeiswyr")?

Dim sylw.

64. Ydych chi'n credu y dylai Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r set lawn o gwestiynau neu dim ond y cwestiynau craidd ar gyfer Cymru?

Dim sylw.

Pennod 6

65. Beth yw eich barn am effaith cadw at yr amser adnewyddu presennol o 5 mlynedd yng ngoleuni newidiadau Deddf Etholiadau 2022?

Dim sylw.

66. Hoffech chi weld pleidleisio ymlaen llaw a/neu bleidleisio mewn amryw o leoliadau yn cael ei gynnig mewn etholiadau datganoledig ledled Cymru?

Hoffwn

Na hoffwn

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

67. Ydych chi'n cefnogi cyflwyno system ar-lein i bleidleisio absennol yng Nghymru? Os ydych, beth hoffech ei weld?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Os bwriedir cyflwyno system ar-lein i bleidleisio absennol yng Nghymru rhaid sicrhau bod pob elfen o'r gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg yn yr union yr un ffordd ag yn y Saesneg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn i'r cyhoedd.

68a. Ydych chi'n meddwl y byddai system o'r fath yn helpu i leihau nifer y pleidleisiau drwy'r post a wrthodir oherwydd gwallau ar y Datganiad Pleidlais drwy'r Post, ac yn helpu i fagu hyder y cyhoedd yn y system bleidleisio drwy'r post?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

68b. A fyddai modd defnyddio system heb fod yn awtomatig i wneud hyn?

Byddai

Na fyddai

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

69. A fyddai cyflwyno system olrhain pleidleisiau drwy'r post, fel yr un a ddisgrifir uchod, yn creu baich gweinyddol sylweddol ar dimau etholiadol awdurdodau lleol?

Byddai

Na fyddai

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

70. Ydych chi'n cefnogi cyflwyno system e-dracio pleidleisiau drwy'r post yng Nghymru?

Cefnogi'n llwyr

Cefnogi'n rhannol

Ddim yn cefnogi

Esboniwch eich ateb:

Os bwriedir cyflwyno system e-dracio pleidleisiau yng Nghymru rhaid sicrhau bod pob elfen o'r gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg yn yr union yr un ffordd ag yn y Saesneg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu'r gwasanaeth i'r cyhoedd.

71. Ydych chi'n cefnogi cyflwyno a defnyddio Cofrestrau Digidol yn ehangach ar gyfer etholiadau nad ydynt yn cael eu cadw yn ôl yng Nghymru? Beth yw manteision neu anfanteision gwneud hyn?

Os bwriedir cyflwyno cofrestrau digidol yng Nghymru rhaid sicrhau bod pob elfen o'r gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg yn yr union yr un ffordd ag yn y Saesneg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu'r gwasanaeth i'r cyhoedd.

72. A oes rhwystrau posibl rhag cyflwyno Cofrestrau Digidol yn ehangach?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

Pennod 7

73. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu gorfodol i gynghorwyr?

Cytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Credwn y byddai hyfforddiant o'r fath yn gyfle i sicrhau dealltwriaeth y cynghorwyr o ofynion safonau'r Gymraeg yr awdurdodau lleol. Byddai hefyd yn gyfle i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith am y Gymraeg yn eu hardal ac yng Nghymru yn gyffredinol a sut y gallant hwy wrth eu gwaith hyrwyddo a sicrhau cyfleoedd i'w hetholwyr a swyddogion yr awdurdod lleol ei hun ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

74. Os ydych chi'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno i gwestiwn 73, a ddylai'r hyfforddi a'r datblygu gorfodol hwn ar gyfer cynghorwyr gynnwys prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned?

Dylai. Yn 2021 ymatebodd Comisiynydd y Gymraeg i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymgynghoriad *Rheoliadau cymwysterau clercod cynghorau cymuned* (atodwn gopi). Cyfeiriwyd at fodiwl y mae'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn ei ddarparu i glercod cynghorau lleol. Yn ein hymateb i ymgynghoriad pellach y Llywodraeth ar Ganllawiau Statudol Drafft Cynghorau Cymuned a Thref yn 2022 (atodwn gopi) ategodd y Comisiynydd ein sylwadau o ymgynghoriad 2021 gan annog y Llywodraeth i drafod â'r Gymdeithas sut i sicrhau dealltwriaeth clercod o statws a sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru, gan gynnwys:

- statws swyddogol yr iaith Gymraeg yng Nghymru yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sefyllfa'r Gymraeg fel iaith a siaredir ym mhob cymuned yn y wlad
- gweinyddu dwyieithog
- cynlluniau iaith Gymraeg (sydd gan nifer o gynghorau cymuned)

- safonau'r Gymraeg sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (er nad yw'r cynghorau cymuned yn ddarostyngedig iddynt, mae'r safonau yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru)

Credwn y dylai hyfforddiant ar y materion uchod fod ar gael i gynghorwyr prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned (boed yn hwy yn glercod ai peidio). Deallwn fod [Canllaw'r Cynghorydd Da Ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref](#) yn cynnwys peth arweiniad am y Gymraeg, ond credwn y byddai'n fuddiol petai'r wybodaeth honno a'r wybodaeth yn y pwyntiau bwled uchod yn rhan o hyfforddiant a datblygu gorfodol cynghorwyr prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned fel ei gilydd.

75. Os ydych chi'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno i gwestiwn 74, a ddylai'r disgwyliadau ar gyfer hyfforddiant gorfodol fod yn wahanol rhwng prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned?

Dylai'r hyfforddiant fod yn addas i'r gofynion sydd ar y cynghorwyr gwahanol yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar yr awdurdodau gwahanol y maent yn aelodau ohonynt. Er enghraifft, o safbwynt y Gymraeg mae awdurdodau lleol yn gweithredu safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; cynlluniau iaith yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sydd gan rai ond nid pob cyngor lleol. Dylai dealltwriaeth o natur safonau'r Gymraeg fod yn gyson i'r ddau fath o gynghorwyr fodd bynnag, ond mae angen iddynt ddeall natur cymharol wahanol y ddau fath o rwymedigaeth. Yn ogystal â dealltwriaeth am y safonau a chynlluniau iaith dylai'r ddau fath o gynghorydd dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gan gynnwys dealltwriaeth o statws y Gymraeg yng Nghymru a sut y gallant hwy drwy eu gwaith hyrwyddo cyfleoedd i'w defnyddio. Gweler ein pwyntiau bwled uchod yn 74 yn hyn o beth.

76. Os ydych chi'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno i gwestiwn 75, pa gynigion fydddech chi'n gwneud ar gyfer meysydd i'w cynnwys mewn hyfforddiant gorfodol?

Gweler ein hymatebion i gwestiynau 74 a 75 o safbwynt y Gymraeg. O ystyried swyddogaeth amlwg cynghorwyr yn eu cymunedau a'u dylanwad ar benderfyniadau am fywydau pob dydd yn eu hardal mae'n gwbl angenrheidiol eu bod yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith sy'n cwmpasu cyfleoedd i hyrwyddo eu defnydd hwy ac eraill o'r Gymraeg, yn ogystal â'r gofynion statudol sydd ar gynghorau lleol a rhai cynghorau tref a chymuned. Buasai hynny yn cyfrannu'n gadarnhaol at weledigaeth Llywodraeth Cymru am y Gymraeg yn Strategaeth Cymraeg 2050. Afraid dweud wrth gwrs y dylai'r hyfforddiant fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i gynghorwyr ar draws Cymru.

77. Os ydych chi'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno y dylid cael hyfforddiant gorfodol, ydych chi'n meddwl y dylid gofyn i ymgeiswyr gadarnhau eu parodrwydd i ymgymryd â'r hyfforddiant fel rhan o'r broses enwebu ymgeiswyr?

Dim sylw.

78. A ddylid wedyn gosod sancsiynau ar ymgeiswyr nad ydynt yn cadarnhau eu bod yn barod i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol?

Dylid

Na ddylid

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

79. A ddylai ymrwymiad i ymgymryd â hyfforddi a datblygu gorfodol fod yn rhan o'r llw y mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ei gymryd cyn gallu derbyn eu swydd?

Dylai

Na ddylai

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb:

Dim sylw.

80. Os mai Dylai oedd yr ateb yng nghwestiwn 79, pa sancsiynau ddylai fod yn berthnasol i aelodau etholedig am beidio ag ymgymryd â hyfforddi a datblygu gorfodol?

Dim sylw.

81. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig polisi i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cynghorwyr Tref a Chymuned yn cyd-fynd â'r gyfundrefn anghymhwys ar gyfer aelodau prif gynghorau yng Nghymru, fel bod aelodau cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu hanghymhwys rhag dod yn aelod o'r Senedd?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno



Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Dim sylw.

82. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cadw'r cyfnod gras i bob cynghorydd sy'n cael ei ethol i'r Senedd?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Dim sylw.

83. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r ffordd o asesu effeithiau'r cynigion a nodir yn yr Asesiad Effaith Integredig drafft? Oes gennych chi unrhyw sylwadau?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Rydym yn cytuno ei bod yn bosibl y gallasai archwilio gofynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer Swyddogion Canlyniadau gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg fel y nodir yn y ddogfen. Fodd bynnag nid yw'r papur gwyn yn cynnig dim cynigion o gwbl ar gyfer gwneud hynny y byddai modd asesu eu heffaith neu beidio; gofyn yn unig am gynigion yr ymgynghorai a wneir. Cytunwn hefyd ei bod yn bosibl i'r cynigion i ddiwygio'r modd y cynhelir adolygiadau etholiadol a chymunedol er mwyn rhoi ystyriaeth ac ymgynghori'n benodol ac yn gynharach â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch enwau Cymraeg a Saesneg

wardiau a chymunedau fod yn gadarnhaol o safbwynt y Gymraeg. Edrychwn ymlaen at barhau i drafod y materion hyn â chi ac edrychwn ymlaen at weld cynnwys yr asesiad effaith penodol ar y Gymraeg y bwriedir ei wneud.

84. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r ffordd o asesu costau a manteision y cynigion deddfwriaethol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft?

Cytuno'n Gryf

Cytuno

Anghytuno

Anghytuno'n Gryf

Pam rydych chi'n dweud hyn?

Dim sylw.

85. A oes meysydd eraill y dylid eu hystyried wrth i ni ddatblygu mwy ar yr Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol?

Dim sylw.

86. Nodwch unrhyw ffynonellau data a gwybodaeth eraill y dylem eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Dim sylw.

87. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai ein cynigion ar ddiwygio etholiadol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac

ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Mae ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio yn benodol ar effaith cynigion y Papur Gwyn ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym wedi nodi 'dim sylw' mewn perthynas â chwestiynau nad ydym yn credu sy'n berthnasol i hynny. Rydym wedi ymateb i gwestiynau yn bennaf mewn perthynas ag enwau wardiau (cwestiwn 23); swyddogion canlyniadau (42-44) a hyfforddiant i gynghorwyr (73-76) lle rydym yn cynnig dulliau o gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. Rydym hefyd wedi nodi y dylai pob datblygiad digidol ym maes etholiadol fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac na

ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddatblygu a darparu'r gwasanaethau digidol hyn i'r cyhoedd.

88. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael:

effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a

dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweler uchod.

89. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau am unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, mae croeso i chi ddweud wrthym isod.

Enw

Sefydliad (os yn berthnasol)

E-bost

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.